

**Cyngor Cymuned Bontnewydd CYFARFOD MISOL : COFNODION**  
**Mawrth 7fed 2013; 7 o'r gloch, Ysgol Bontnewydd**

**PRESENNOL**

*Cynghorydd Erddyn Davies yn cadeirio'r cyfarfod gyda  
 Cynghorydd Dafydd Iwan, Rhys Pugh, Sioned Williams, Eddie Hughes, Emyr Williams,  
 Gwyneth Thomas a Geraint R. Jones yn bresennol, yn ogystal â'r cler, Bryn Hughes*

**DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL**

*Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Clerc ar eitemau yn ymwneud a'i gyflogaeth a olygai iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.*

*Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Sioned Williams ar eitem cais cynllunio Cae'r Efail Bach, Llanfaglan a olygai iddi adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.*

*Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng. Dafydd Iwan ac Eddie Hughes ar eitem yn ymwneud a chais gan Hwyl y Bont 2013 am grant ond nid oedd gofyn iddynt adael y cyfarfod.*

**YMDDIHEURIADAU**

*Cafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Sir, Chris Hughes a Cyng. Marian Roberts ac Ifor D. Williams*

**CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

*3 eitem yn y Cofnodion angen cywiro. Fe ddylai'r Cofnodion ddatgan mai ym mis EBRILL y bydd y ceisiadau am Gymorth ariannol yn cael eu hystyried, nid CHWEFROR*

*O wneud y cywiriadau, fe gafwyd y Cofnodion yn gywir drwy CYNNIG gan Cyng. Geraint R. Jones a gafodd ei EILIO gan Cynghorydd Erddyn Davies. DIM GWRTHWYNEBIAD*

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN**

*Fe gafwyd diweddariad gan y Clerc ar ddatblygiad Parc y Plwyf. Dywedodd nad yw' cynlluniau eto mewn lle ond ei fod ef a Swyddog o Gyngor Gwynedd yn cyfarfod i gymryd rhagor o fesuriadau Hefyd, oedd y Swyddog yn awgrymu y dylai'r Cyngor Cymuned ystyried mynediad i'r Eisteddle o'r ochr yn hytrach na'r briffordd a mi fydd yn creu cynllun yn seiliedig ar hyn. Mi fyddai cael mynediad o'r ochr yn golygu llai o gymhlethdod gyda mynediad ac ati. Oedd yr aelodau yn gweld rhinwedd yn y syniad. Dywedodd y cler cymhellach ei fod wedi derbyn rhestr o gontractwyr cymwysiedig i wneud y gwaith (Contractwyr sydd yn rhan o restr cwmnïau sydd yn gymwysiedig i weithio i Gyngor Gwynedd). Mae'r cler yn gobeithio cael y cynllun a'r manyleb erbyn y cyfarfod nesaf.*

**SWYDD DDISGRIFIAD Y CLERC**

- 1 Y Swydd Ddisgrifiad : Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- 2 Cytundeb Cyflogaeth : Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- 3 Gwyliau Blyneddol : Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (gweler hefyd eitem 5.1.2 sef cais am tâl yn lle gwyliau ar gyfer blwyddyn ariannol \*2011/12 a 2012/13)  
 \* Yn 2011 fe gofrestrwyd y Cyngor Cymuned fel cyflogwr.

*Fe ddechreuodd y cler drwy cyflwyno yr eitemau uchod ac esbonio'r newidiadau oedd yn rhaid ei wneud wedi i'r Cyngor Cymuned gofrestru fel Cyflogwr yn unol a gofynion Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (CThEM/HMRC). Aeth i egluro sut oedd Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn effeithio ar y Cyngor fel cyflogwr mewn perthynas a hawl y cyflogai i :*

- (1) Gwyliau (pro rata i staff rhan amser).
- (2) Tâl salwch, mamolaeth a thadolaeth.
- (3) Oriau gwaith a goramser.
- (4) Swydd Ddisgrifiad a Chytundeb Cyflogaeth.

*Aeth ymlaen i esbonio ei fod yn gwneud cais am gyflog yn lle gwyliau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011/12 a 2012/13, ac eglurodd nad oedd wedi cymryd gwyliau a thâl yn ystod y cyfnodau dan sylw. Fe ddangosodd sut oedd yn cofnodi ei oriau gwaith, a faint o oriau yr oedd wedi gweithio yn y cyfnodau dan sylw. Yn ystod y ddau gyfnod, oedd wedi/yn gweithio lawer mwy o oriau na'r hyn y bydd yn derbyn cyflog, ac aeth ymlaen gan ddweud ei fod yn fodlon rhoi'r oriau goramser fel oriau gwirfoddol heb gyflog, ond y credai y byddai'n annheg iddo beidio cael tâl yn lle'r gwyliau a thâl oedd ganddo'r hawl i ofyn am. Ar ôl y cyflwyniad, aeth allan o'r cyfarfod i adael i'r aelodau drafod y materion yma.*

**Penderfyniad**

*(1) Mewn perthynas a chais y cleric am dâl yn lle'r gwyliau ar gyfer cyfnodau 2011/12 a 2012/13. Nid oedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais mewn egwyddor, ond hoffem yn gyntaf wirio'r hawl gan y cleric gyda'r Archwilydd Mewnol, Mr J.D. Roberts. O ganlyniad, mi fydd y Cadeirydd, Cyng Erddyn Davies, a Cyng. Geraint R. Jones yn cyfarfod i drafod y cais gyda'r Archwiliwr. Ar ôl y drafodaeth, mi fydd y Cadeirydd yn cysylltu gyda'r Clerc ynghylch y penderfyniad.*

*(2) Mae angen i'r Clerc baratoi (a) Hysbyseb (b) Swydd Ddisgrifiad a (c) Cytundeb Cyflogaeth a'i ddsbarthu i'r aelodau yn electroneg.*

**MATERION ARIANNOL**

CYFLOG A CHOSTAU CLERC : Mis Chwefror 2013 yn £256.08 Gros £214.48 Net

*Penderfyniad : Derbyn er gwybodaeth*

CYFLOG A CHOSTAU CLERC : Mis Mawrth 2013 yn £847.98 Gros (gan gynnwys £594.80 o dâl yn lle gwyliau blynyddol 2011/12 a 2012/13) £687.38 Net

*Penderfyniad : \*Gweler Swydd Ddisgrifiad y cleric (pwynt 3)*

DATGANIAD Y BANC : Balans hyd at 28 Ionawr 2013 yw £12051.95

**CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

CAIS C12/1559/19/LL Tir tu ôl i Felin Gwyrfaï : Adeiladu 2 Dŷ

*Penderfyniad : Dim gwrthwynebiad cyn belled a fod yna asesiad trylwyr wedi ei wneud o'r fynedfa ac nad yw'r tai yn agos at y caeau y sydd tu cefn iddynt .*

CAIS C13/0146/19/LL Cae'r Efail Bach, Llanfaglan : Adeilady Tŷ Fforddiadwy a gwelliannau i'r fynedfa bresennol (Ail-gyflwyniad i'r Cais a dynnwyd yn ôl o dan cyfeirnod C12/1271/19/LL)

*Penderfyniad : Dim newid i'r penderfyniad a wnaethpwyd ar gais C12/1271/19/LL , sef cais C12/1042/19/LL Cae'r Efail, Llanfaglan, sydd wedi ei ddiwygio ac sydd nawr yn gais C12/1271/19/LL, oherwydd yr angen am wybodaeth ychwanegol. Fe drafodwyd y cais gwreiddiol yng nghyfarfod 4 Hydref 2012 a fe benderfynwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais cyn belled a'i fod yn unol a pholisi tai fforddiadwy mewn pentref gwledig y Cyngor Sir, fod yna dystiolaeth o'r angen lleol, a bod y cynllun yn addas ar gyfer ei leoliad mewn ardal wledig.*

**GOHEBIAETH**

AMBIWLANS AWYR CYMRU : Cais am gymorth ariannol

*Penderfyniad : I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill*

HWYL Y BONT 2013 : Cais am Gymorth ariannol

*Penderfyniad : I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill*

C T H E M : Hysbysiad ynghylch y drefn TWE a sustem RTI

*Penderfyniad : Defnyddio cwmni Owain Bebb yng Nghaernarfon ar gyfer gweinyddu'r taliadau cyflogaeth i gychwyn Ebrill 1af 2013. Mi fydd y clerc yn cyflwyno ei gais am gyflog yn y drefn arferol, yna ar ôl ei awdurdodi gan yr aelodau, mi fydd y ffigyrau yn cael ei drosglwyddo i Owain Bebb er mwyn iddynt baratoi datganiad cyflog gyda'r symiau priodol sydd angen ei dalu i CThem/HMRC. O dderbyn y ddogfen yma, mae'r clerc yn ei gyflwyno i'r Cadeirydd er mwyn gwneud y taliadau priodol.*

#### MATERION ERAILL

Cynghorydd Chris Hughes - Pryderon gyda parcio yn Lôn Groes / Gwerthu'r Cartref

*Penderfyniad : Mae'r clerc i drefnu cyfarfod gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd ar y safle i drafod y problemau. Mae'r Cyng. Gwyneth Thomas am ddanfôn lluniau digidol yn dangos y broblem gyda traffig yn y rhan yma o'r pentref, i'r clerc.*

#### DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Ebrill 4ydd 2013 am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Bontnewydd.

Pe hoffech dderbyn y Cofnodion yn llawn, yna y mae groeso i chi rhoi cais ymlaen i'r clerc drwy e-bost. Ei gyfeiriad yw : [hughesbryn@yahoo.co.uk](mailto:hughesbryn@yahoo.co.uk) a fe gewch y Cofnodion yn rhad ac am ddim.

Os hoffech copi papur drwy'r post, yna cysylltwch a'r clerc gan ysgrifennu ato :

Bryn Hughes

Clerc Cyngor Cymuned Bontnewydd

11 Bro Wyled

Rhostryfan

Caernarfon

LL54 7LP

A cynnwys sic neu Archeb Post yn daladwy i CYNGOR CYMUNED

BONTNEWYDD am £1.00